# STRATEGAETH BUDDSODDI ADDYSG CAERDYDD 2024 - 2033
# DOGFEN GRYNO 2026

## DARPARIAETH ARBENIGOL I DDYSGWYR OED CYNRADD AC UWCHRADD AG ANGHENION IECHYD A LLES EMOSIYNOL

**9 CHWEFROR 2026 – 26 MAWRTH 2026**




Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn lawn o'r ddogfen hon ar gael yn:
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolionADY
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 i drefnu hyn

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# CYFLWYNIAD

## Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd.

Mae'r Cyngor am wneud newidiadau i'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr cynradd ac uwchradd sydd ag Awtistiaeth a/neu Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol.

Rydym am i bawb ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig, fel y gallwch ddweud eich barn wrthym am y newidiadau.

Mae'r llyfryn hwn yn fersiwn gryno o'r ddogfen ymgynghori ar y newidiadau hyn. Gallwch ddod o hyd i'r ddogfen ymgynghori yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol, cynigir:

- Cynyddu'r nifer Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o 8 i 16 o fis Ionawr 2027 o fewn yr adeiladau presennol.
- Cynyddu'r nifer Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o 8 i 16 o fis Ionawr 2027 o fewn yr adeiladau presennol.
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol Cymraeg newydd yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof o fis Ionawr 2027 o fewn yr adeiladau presennol.
- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Greenhill o 64 i 128 o leoedd o fis Ionawr 2027. Byddai'r ysgol ar draws dau safle gan ddefnyddio adeilad dros dro ar safle gwag Ysgol The Court yn Llanisien.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymgynghori ar gynigion ar wahân i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag:

- Awtistiaeth/Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol
- Anghenion Dysgu Cymhleth

Gallwch ddod o hyd i fanylion am y cynigion hyn yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

- Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Cyngor Caerdydd yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- Os na allwch gael gafael ar y wybodaeth ar-lein, gallwch ofyn am gael copi caled o'r ddogfen ymgynghori hon drwy'r post. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio 029 2087 2720.
- Byddwn yn dweud wrth deuluoedd sydd â phlant yn yr ysgolion dan sylw sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.
- Byddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio i unrhyw un fynd iddynt lle bydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Bydd sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein yn cael eu cynnig.

- Bydd swyddogion y Cyngor yn cwrdd â Chorff Llywodraethu a staff (yn ôl yr angen) yr ysgolion sydd wedi'u cynnwys fel rhan o'r cynigion hyn.
- Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i roi eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori wedi eu nodi isod:

**Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori**

| Natur yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn galw heibio | Dydd Iau 19 Chwefror 2026 **9:30am - 11:30am** | Hyb Llanisien |
| Sesiwn galw heibio | Dydd Gwener 27 Chwefror 2026 **10:30am -12:30pm** | Hyb Treláі a Chaerau |
| Sesiwn galw heibio | Dydd Gwener 6 Mawrth 2026 **11:30am - 1:30pm** | Hyb STAR |
| Sesiwn galw heibio | Dydd Llun 9 Mawrth 2026 **12 noon - 2pm** | Canolfan Ddiwylliant a'r Cyfryngau Loudon |
| Sesiwn galw heibio | Dydd Mercher 18 Mawrth 2026 **11am - 1pm** | Hyb Llaneirwg |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Mercher 18 Chwefror 2026 **12 noon - 1pm** | Teams |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Llun 23 Chwefror 2026 **1pm - 2pm** | Teams |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Mawrth 24 Chwefror 2026 **2pm - 3pm** | Teams |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Llun 2 Mawrth 2026 **5pm - 6pm** | Teams |
| Sesiwn galw heibio ar-lein | Dydd Gwener 13 Mawrth 2026 **12:30pm - 1:30pm** | Teams |
| Cyfarfod cyhoeddus (wyneb yn wyneb) | Dydd Iau 19 Mawrth 2026 **5:30pm - 6:30pm** | Y Llyfrgell Ganolog |

## Sut gallaf roi fy marn?

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon.

Gallwch wneud hyn drwy:

- Ymuno â sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb. Nid oes angen i chi archebu ymlaen llaw ar gyfer y sesiynau hyn. Dim ond mynd i'r lleoliad ar y dyddiad a'r amser a bennir
- Ymuno â sesiwn galw heibio ar-lein. Cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk i gadarnhau pa sesiwn yr hoffech chi fynd iddi a byddwn yn anfon dolen atoch ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i fynd i'r cyfarfod hwn.
- Mynychu'r cyfarfod cyhoeddus wyneb yn wyneb. Cysylltwch â ni drwy e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan nodi pa gyfarfod yr hoffech ei fynychu, a byddwn yn ymateb i gadarnhau'r trefniadau.
- Llenwi'r ffurflen ymateb electronig y gallwch ddod o hyd iddi yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**
- Argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddi yn **Darpariaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** a dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

- Ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog eich ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 26 Mawrth 2026.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

## Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau sy'n cefnogi'r cynigion hyn.

### Cryfach Tecach Gwyrddach

Nod polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor yw gwella addysg i leihau tlodi, hyrwyddo ffyniant hirdymor, a chefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed gydol eu haddysg. Mae modd gweld Cryfach, Tecach, Gwyrddach yn **Cryfach Tecach Gwyrddach**

### Caerdydd 2030

Nod gweledigaeth Caerdydd 2030 yw rhoi mynediad teg i addysg i bob plentyn a pherson ifanc, gan eu helpu i ffynnu a chyflawni eu huchelgeisiau. Mae'n canolbwyntio ar oresgyn rhwystrau i'r dysgwyr hynny sy'n wynebu'r heriau mwyaf.

Mae gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gael i'w gweld yn **caerdydd.gov.uk/caerdydd2030**

### Strategaeth Cynhwysiant

Nod y Strategaeth Gynhwysiant yw sicrhau bod ysgolion yng Nghaerdydd yn cynnwys pawb fel y gall y rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ffynnu yn eu hysgolion prif ffrwd lleol. Mae darpariaeth arbenigol hefyd ar gael pan fo angen i gefnogi dysgwyr orau.

Mae Strategaeth Cynhwysiant Caerdydd ar gael i'w gweld yn **Strategaeth Cynhwysiant Addysg**

### Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024 – 2033

Mae Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024–2033 yn cyflwyno cynllun hirdymor i wella system addysg Caerdydd yn unol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'n canolbwyntio ar ddysgu teg, uchelgeisiol a chynaliadwy.

Mae Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024 – 2033 ar gael i'w gweld yn **Strategaeth Buddsoddi Addysg 2024 i 2033**

### Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 2024-2033 Caerdydd

Mae Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Caerdydd 2024-2033 yn gynllun i wella ysgolion yng Nghaerdydd. Mae'n anelu at wneud addysg yn well trwy wario arian ar adeiladau ysgol i'w gwneud yn fwy modern ac addas i bawb.

### Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd

Nod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd yw helpu Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'n gwneud hyn drwy greu mwy o gyfleoedd i ddysgu yn Gymraeg, cefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol, a hyfforddi mwy o athrawon i addysgu yn Gymraeg.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd ar gael i'w weld yn **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd.pdf**

## Digonolrwydd yn y Sector Arbennig

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn mynychu ysgol brif ffrwd leol, ac yn cael cefnogaeth Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Mae dysgwyr sydd ag anghenion mwy difrifol neu gymhleth yn mynychu ysgol arbennig neu Ganolfan Adnoddau Arbenigol.

Mae ysgol arbennig yn ysgol i blant a phobl ifanc ag Angen Dysgu Ychwanegol neu anabledd, na ellir diwallu eu hanghenion mewn ysgol brif ffrwd. Mae dysgwyr yn elwa o gwricwlwm arbenigol a addysgir gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu.

Mae Canolfan Adnoddau Arbenigol yn ddosbarth bach mewn ysgol brif ffrwd i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sylweddol. Caiff y disgyblion eu haddysgu gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu, a chânt gyfleoedd i ddysgu, chwarae neu gymdeithasu â disgyblion prif ffrwd eraill.

Mae nifer y dysgwyr sydd ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu Canolfan Adnoddau Arbenigol wedi parhau i dyfu.

Mae hyn oherwydd:

- Cyfraddau goroesi gwell i blant sy'n cael eu geni ag anableddau sylweddol, gan arwain at nifer uwch o ddysgwyr ag anableddau difrifol a chymhleth.
- Mwy o gymhlethdod o ran anghenion, sydd wedi golygu bod y galw am ddarpariaeth arbenigol wedi parhau i dyfu.
- Mwy o blant ag anghenion penodol fel awtistiaeth, ADCG, anableddau corfforol a namau synhwyraidd.
- Mwy o blant a phobl ifanc ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol. Roedd hyn yn duedd cyn COVID 19 ond mae wedi'i waethygu gan gau ysgolion a mesurau eraill i reoli'r pandemig.

## Darpariaeth bresennol

Ar hyn o bryd, mae dwy ysgol arbennig, saith Canolfan Adnoddau Arbenigol ac un Dosbarth Llesiant dros dro i ddysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol.

Er bod nifer o leoliadau arbenigol ledled Caerdydd ar hyn o bryd, nid oes digon o leoedd ar gael.  Mae nifer y plant a fyddai'n elwa o le wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac amcanestynol y bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig na Chanolfannau Addysg Arbenigol yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd cynghorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol.

Cyfanswm y gwariant ar y lleoedd hyn i ddysgwyr o bob oed oedd £15.4m yn 2024/25.  Ar hyn o bryd, mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar £16.9m.

Byddai ehangu darpariaeth a gynhelir gan y Cyngor yn fwy cost-effeithiol na dibyniaeth barhaus ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.

## Dosbarthiad daearyddol darpariaeth arbenigol

Mewn rhai ardaloedd yng Nghaerdydd nid oes digon o leoedd arbenigol i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gall hyn beri anfantais i ddysgwyr sy'n byw yn yr ardaloedd hynny.

Mae rhai teuluoedd yn anghyfarwydd â'r ardaloedd lle mae darpariaeth wedi'i lleoli neu efallai na fyddant yn gallu teithio'n hawdd i'r ardaloedd hynny.

Er bod trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gael i blant o'r fath, mae anfon plentyn ifanc i'r ysgol mewn ardal anghyfarwydd yn benderfyniad anodd i rieni/gofalwyr.

Byddai dosbarthiad gwell o leoedd arbenigol ledled y ddinas yn gwella mynediad i ddisgyblion.  Byddai'n lleihau amseroedd teithio i lawer o ddisgyblion, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael.


# Galw am leoedd

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chynyddu'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn darpariaeth arbenigol lle mae lleoliadau parhaol yn briodol.

Mae datblygu cynigion wedi'i flaenoriaethu i sicrhau bod cydbwysedd priodol yn nifer a math y lleoedd arbenigol ar gyfer dysgwyr Caerdydd.

Byddai'r set hon o gynigion yn darparu 88 o leoedd arbenigol Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles parhaol ychwanegol, gan gynnwys 24 ar gyfer dysgwyr oedran cynradd a 64 ar gyfer dysgwyr oedran uwchradd ac ôl-16. Byddai pob un o'r ysgolion yn derbyn buddsoddiad i sicrhau bod ystafelloedd dosbarth a chyfleusterau cymorth priodol i'r dysgwyr i'w lleoli yn yr ysgol.

# Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2025/26



# Ysgolion yr effeithir arnynt gan y newidiadau arfaethedig



# Cynnig am leoedd Canolfan Adnoddau Iechyd a Lles Emosiynol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Baden Powell

Mae Ysgol Gynradd Baden Powell yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg ag adran feithrin wedi'i lleoli yn Heol Muirton, Tremorfa, Caerdydd, CF11 2SJ.

Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer dysgwyr oed cynradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol.



Mae'r ysgol yn derbyn hyd at 60 o ddysgwyr fesul grŵp blwyddyn ac mae ganddi 48 o leoedd meithrin.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth gynradd arbenigol, mae'r Cyngor yn cynnig:

- Cynyddu nifer dynodedig y lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o 8 i 16 o fis Ionawr 2027.

Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol.

Cynigir y byddai'r disgyblion ychwanegol yn cael eu lletya yn yr adeiladau ysgol presennol.

# Cynnig ar gyfer lleoedd Iechyd a Lles Emosiynol Canolfan Adnoddau ychwanegol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed

Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gynradd y Tyllgoed sydd wedi'i lleoli yn Wellwright Road, Y Tyllgoed, Caerdydd, CF5 3ED.

Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 8 lle i ddysgwyr oed cynradd ag anghenion Iechyd a Lles Emosiynol.




Mae'r ysgol wedi'i chydleoli o fewn adeilad newydd Ysgol Cynefin (Ysgol Arbennig The Court), a fydd yn agor i staff a disgyblion yng ngwanwyn 2026. Bydd cydleoli Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Cynefin, sy'n darparu ar gyfer dysgwyr oedran cynradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol, yn caniatáu i staff rannu arfer gorau, cryfhau'r berthynas rhwng darpariaeth ysgol brif ffrwd ac arbennig, a bydd yn gwella cyfleoedd dysgu proffesiynol a gweithio amlasiantaethol.

Mae'r ysgol yn derbyn hyd at 40 o ddysgwyr fesul grŵp blwyddyn.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth gynradd arbenigol, mae'r Cyngor yn cynnig:

- Cynyddu nifer y lleoedd Iechyd a Lles Emosiynol dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o 8 i 16 o fis Ionawr 2027.

Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol.

Cynigir y byddai'r disgyblion ychwanegol yn cael eu lletya yn yr adeiladau ysgol presennol.

# Cynnig i sefydlu llefydd Iechyd a Lles Emosiynol Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof

Mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn ysgol gynradd Gymraeg yn Rhodfa Beechley, Pentre-baen, Caerdydd, CF5 3SG.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n flaenorol ar gynnig i sefydlu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol. Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr cytunodd Cabinet y Cyngor i ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof o 4-11 oed i 3-11 oed drwy sefydlu uned feithrin fel rhan o'r ysgol o fis Medi 2026.




Mae'r ysgol yn derbyn hyd at 40 o ddysgwyr fesul grŵp blwyddyn.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth gynradd arbenigol, mae'r Cyngor yn cynnig:

- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer dysgwyr ag anghenion Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof o fis Ionawr 2027.

Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol.

Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

## Cynnig ar gyfer lleoedd Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol ychwanegol yn Ysgol Arbennig Greenhill

Mae Ysgol Greenhill yn ysgol arbennig 64 lle ar gyfer dysgwyr uwchradd ledled y ddinas sydd wedi'i lleoli yn Heol Brynglas, Rhiwbeina, CF14 6UJ.



Mae gan bob un o'r dysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol sylweddol (dynodiad CYBLD yw Anawsterau Ymddygiadol Emosiynol a Chymdeithasol – AYECh).

Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd ysgol arbennig uwchradd i ddysgwyr ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol, cynigir:

- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Greenhill o 64 i 128 o leoedd o fis Ionawr 2027.

Byddai'r ysgol ar draws dau safle gan ehangu i 128 o leoedd gan ddefnyddio safle presennol Greenhill ac adeilad dros dro ar y safle lle mae Ysgol Cynefin (Ysgol Arbennig The Court) ar hyn o bryd yn Llanisien. Bydd Ysgol Cynefin yn gadael y safle yng ngwanwyn 2026 pan fydd yr ysgol yn symud i safle adeilad newydd.

### Ehangu Ysgol Arbennig Greenhill ymhellach

Byddai capasiti'r ysgol yn cael ei gynyddu ymhellach i 192 o leoedd o fis Medi 2029.

Mae'r Cyngor yn trafod caffael safle yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd. Byddai'r safle'n cefnogi'r gwaith o ehangu Ysgol Arbennig Greenhill ymhellach, a byddai'n darparu ar gyfer 96 o leoedd. Byddai capasiti'r ysgol yn cynyddu o 128 i 192 o leoedd ar ôl cwblhau'r adeilad newydd ar y safle newydd, gan ganiatáu i'r trefniadau dros dro ar safle gwag Ysgol Cynefin ddod i ben.

Rhagwelir y byddai'r Ysgol Greenhill estynedig yn trosglwyddo i'r safle yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd o fis Medi 2029.

Byddai unrhyw ehangu pellach ar yr ysgol yn destun ymgynghoriad ar wahân.

## Manteision y newidiadau arfaethedig

Er mwyn cefnogi ehangu darpariaeth arbenigol, mae'r cynigion yn:

- Defnyddio adeiladau ysgol presennol lle bo'n bosibl
- Cydweddu nifer y lleoedd prif ffrwd yn well â'r galw lleol a lleihau lleoedd sbâr

Byddai'r cynigion hefyd yn:

- Cynyddu nifer y lleoedd ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol a helpu i gwrdd â'r galw yn y dyfodol
- Gwneud y defnydd gorau o'r adeiladau ysgol presennol lle bo hynny'n bosibl
- Lleihau'r angen am leoliadau y tu allan i'r sir trwy ddarparu mwy o leoedd yng Nghaerdydd
- Cynnig mwy o leoedd i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn agos i'w cartrefi, fel eu bod yn treulio llai o amser yn teithio a gall teuluoedd chwarae mwy o ran
- Gwella lles dysgwyr, drwy wneud mannau presennol yn haws i'w cyrraedd ac yn fwy cynhwysol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Caniatáu i'r newidiadau ddigwydd fesul cam a gwneud hi'n bosibl newid y defnydd ar y mannau eto yn y dyfodol os bydd niferoedd y dysgwyr yn mynd i fyny neu i lawr
- Osgoi'r angen am brosiectau adeiladu mawr, sy'n cefnogi targedau cynaliadwyedd

## Anfanteision posibl y newidiadau arfaethedig

- Gall newid fod yn anodd i rai disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri gofid iddynt. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser a phrosesau hirhoedlog i gynllunio a chefnogi newid o'r fath.
- Gallai fod mwy o dagfeydd traffig o amgylch safleoedd ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

## Risgiau

- Os oes angen gwaith adeiladu neu adnewyddu, gallai problemau godi sy'n oedi'r gwaith. Gallai hyn ddigwydd os yw'n anodd dod o hyd i'r contractwyr cywir, os yw'r prosiect yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, neu os nad oes digon o gyllid. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor lawer o brofiad o reoli prosiectau adeiladu ysgolion, felly mae'n barod iawn i ddelio ag unrhyw broblemau a allai godi.

## Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod safonau ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Mae'r safonau yn y pum ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Gellir dod o hyd i adroddiad diweddaraf Estyn ar gyfer pob ysgol drwy ddilyn y dolenni isod.

- Ysgol Gynradd Baden Powell - Estyn (SAES)
- Ysgol Gynradd y Tyllgoed - Estyn (SAES)
- Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof - Estyn
- Ysgol Arbennig Greenhill - Estyn (SAES)

## Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion?

Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y ceid effaith negyddol ar anghenion unrhyw un o'r grwpiau isod gan y newidiadau arfaethedig:

- Dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Dysgwyr sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Dysgwyr sy'n derbyn Prydau Ysgol Am Ddim
- Dysgwyr Ethnig Leiafrifol

## Trefniadau Teithio Dysgwyr a Thraffig a Thrafnidiaeth

Gweler polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

Rhaid i'r Cyngor ddarparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf ac i ddisgyblion uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Mae'r Cyngor yn darparu trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim i ddysgwyr ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol ar sail yr uchod. Gall rhai disgyblion sy'n byw o fewn 2–3 milltir i'r ysgol hefyd gael cludiant am ddim oherwydd anghenion unigol neu broblemau cymdeithasol.

Pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgolion arbennig yn dal i fod yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Fodd bynnag, efallai y bydd gan rai dysgwyr bellteroedd teithio byrrach oherwydd darpariaeth arbenigol fwy lleol. Gallai hyn ganiatáu i rai deithio'n annibynnol. Mae'r Cyngor yn cefnogi dysgwyr gyda Hyfforddiant Teithio Annibynnol a hyfforddiant beicio. Mae hefyd yn cynllunio llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus symlach sy'n cefnogi teithio llesol a chynaliadwy.

Bydd angen mannau gollwng a chasglu addas ar bob lleoliad ysgol ar y safle ar gyfer cerbydau Cludiant Dysgwyr.

Rhaid i'r ardaloedd gollwng a chasglu fod yn ddigon mawr ar gyfer y nifer priodol o gerbydau. Mae hyn fel arfer yn un tacsi i bob tri dysgwr. Weithiau gellir defnyddio bysiau mini, yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr, ble maen nhw'n byw, a sut mae llwybrau yn cael eu cydlynu.

## Datblygu'r Gweithlu Addysg

Bydd twf arfaethedig y lleoedd arbenigol yn effeithio ar faint o staff sydd eu hangen. Wrth i fwy o ddysgwyr symud i ysgolion arbenigol, bydd angen llai o staff ar rai ysgolion prif ffrwd. Bydd mwy o swyddi yn cael eu creu yn y ddarpariaeth arbenigol newydd. Bydd cyfleoedd i'r Cyngor greu rolau newydd ar gyfer staff presennol, gan gynnwys athrawon, Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch, Cynorthwywyr Addysgu, Goruchwylwyr Canol Dydd a staff cymorth eraill.

Mae gan y Cyngor Grŵp Datblygu'r Gweithlu gyda rhanddeiliaid sy'n cefnogi recriwtio, hyfforddi a chadw staff ysgolion. Mae'r grŵp yn gweithio'r modelau staffio gorau ar gyfer dysgwyr ym mhob darpariaeth arbenigol.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor. Bydd hyn yn helpu'r aelodau etholedig i ddeall barn rhanddeiliaid a bydd yn rhoi gwybodaeth iddynt i'w helpu i wneud eu penderfyniad.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynigion, rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Byddai'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, byddwn yn rhoi gwybod i bawb y mae'r cynnig yn effeithio arnynt. Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.